**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

10 Ionawr 2020

Annwyl Andrew,

**Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau**

Diolch am y dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol rydych wedi'i rhoi i'r Pwyllgor yn dilyn ein sesiynau tystiolaeth yn ystod tymor yr haf 2019 ar gymorth ariannol i fusnesau. Yn hytrach nag adrodd yn ffurfiol ar yr adeg hon, rwy'n ysgrifennu i nodi rhai o brif bryderon y Pwyllgor. Nid wy'n disgwyl ymateb manwl ar hyn o bryd, ond byddwn yn croesawu diweddariad yn haf 2020 i lywio sesiwn dystiolaeth ddilynol. Bydd y tîm clercio mewn cysylltiad i wneud y trefniadau angenrheidiol ac i drafod pa wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol ei chael i lywio'r sesiwn honno. Er hwylustod i chi, mae'r wybodaeth ar dudalen y Pwyllgor ar yr ymchwiliad ar gael yma.

Hefyd, rwy'n cydnabod bod rhywfaint o'r dystiolaeth a gafwyd a'r materion a godwyd yn ystod ein hymchwiliad yn berthnasol i waith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Felly, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AC, Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn ategu rhai o'r materion a bwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2018. Mae'n amlwg bod gan Lywodraeth Cymru waith i'w wneud o hyd, i asesu a dangos yn dryloyw werth am arian cyffredinol y cymorth ariannol y mae'n ei roi i fusnesau ac yn erbyn ystod ehangach o fesurau. Er y bu newidiadau dilynol i'r cyfeiriad polisi strategol cyffredinol, mae'n destun pryder ac yn annerbyniol na chyflawnodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad ei hun i gyflwyno adroddiad cyhoeddus ar ei chynnydd wrth weithredu'r strategaeth 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Mae'r diffyg adrodd hwn yn amharu ar y Cynulliad wrth graffu'n effeithiol a sicrhau atebolrwydd. Dylai Llywodraeth Cymru unioni hyn yng nghyd-destun y Cynllun Gweithredu ar yr

Economi newydd a’r ymrwymiadau a roddwyd ar waith i allu cyflwyno adroddiad mwy cynhwysfawr o 2020-21 mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

Nododd yr Aelodau’r cyfeiriad a ragwelir ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a’r nod i fod yn gliriach ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan fusnesau’n gyfnewid am gymorth ariannol. Ymhen amser, byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynglŷn â maint yr her a osodir gan Lywodraeth Cymru yn y cyd-destun hwn. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol bod yr agenda datgarboneiddio eisoes â lle amlwg yn y model gweithredu ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, ond byddwn yn edrych yn benodol ar enghreifftiau ymarferol o sut y mae’r disgwyliadau wedi’u cryfhau yn sgil datgan argyfwng hinsawdd.

Er ein bod yn cydnabod y bu rhywfaint o ansicrwydd yn gysylltiedig â Brexit, roeddem yn pryderu am gyflymder y cynnydd hyd yn hyn o ran ymgorffori’r trefniadau newydd dan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gallai’r disgwyliadau hyn effeithio ar yr ystod lawn o gymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a’r Banc Datblygu hyd yn oed os yw prif ffocws y Banc Datblygu, fel yr awgrymwyd i ni, ar greu elw economaidd. Hefyd, gwnaethom nodi sylwadau’r Ffederasiwn Busnesau Bach bod gan Lywodraeth Cymru waith i’w wneud o hyd i sicrhau bod y gymuned fusnes yn deall ac yn croesawu tirwedd newydd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Mae’n bwysig bod agwedd gydlynol a chydgysylltiedig o ran cymorth ariannol i fusnesau y mae rhanddeiliaid allweddol yn ei deall, gan gynnwys y cysylltiadau â’r cymorth sydd ar gael drwy Fanc Busnes Prydain.

Rwyf wedi nodi rhai arsylwadau isod ar faterion penodol eraill:

**Benthyciwr pan fetha popeth arall**: fel y trafodwyd yn ein sesiwn dystiolaeth, er bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio’r ymadrodd hwn o’r blaen i ddisgrifio ei hagwedd tuag at ddarparu cymorth ariannol i fusnesau, gall fod yn anodd cysoni hyn â rhai o’r ymyriadau cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi’u gwneud. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fyfyrio ar sut y gall gyfleu’n well i fusnesau sut y mae’n gweld ei rôl a’r gwahaniaeth rhwng cymorth ariannol Llywodraeth Cymru a’r cymorth sydd ar gael drwy’r Banc Datblygu.

**Cyllidebu ar gyfer cymorth busnes a gwerth am arian cymharol gweithgarwch gwahanol**: Gwnaethom drafod yr heriau ymarferol wrth gyllidebu ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau, er bod Llywodraeth Cymru, serch hynny, wedi derbyn argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol i’r perwyl hwn.

Yn fwy cyffredinol, pwysleisiodd y dystiolaeth a gawsom mai dim ond un rhan o'r hyn y mae'r gymuned fusnes yn ei geisio gan Lywodraeth Cymru oedd cymorth ariannol uniongyrchol, yn ad-daladwy neu fel arall, gyda thystion yn cyfeirio at wariant ar wasanaethau cyngor busnes cyffredinol, cymorth entrepreneuriaeth, datblygu'r sylfaen sgiliau neu seilwaith gwell. Rydym yn cydnabod nad oes cydbwysedd perffaith ac y gall fod amryw ymyriadau sydd oll yn cyfrannu at ganlyniadau penodol. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod cyfle i fyfyrio, yn fewnol drwy ddeialog rhwng Gweinidogion a swyddogion, ac yn allanol â rhanddeiliaid, ynghylch a yw'r dyraniad adnoddau presennol ar draws meysydd gweithgarwch gwahanol yn gwneud y gorau o effaith y gwariant hwnnw ar amcanion ehangach Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys edrych eto ar y cydbwysedd rhwng cyllid grant a benthyciad lle, fel y gwnaethoch nodi, y gellir ailgylchu cyllid benthyciad.

Yn ogystal, cawsom ein taro gan rywfaint o'r dystiolaeth a gawsom gan y Ffederasiwn Busnesau Bach am yr elw cymharol o'r cymorth i fusnesau o feintiau gwahanol. Yn ei adroddiad, anogodd yr Archwilydd Cyffredinol Lywodraeth Cymru i ddilyn dull tebycach i bortffolio buddsoddi i reoli'r risg gyffredinol mewn ffordd gydlynol. Yn yr un modd, rydym o'r farn bod rheoli portffolio ac adrodd yn ffordd o helpu Llywodraeth Cymru i nodi a allai sicrhau gwerth gwell am arian drwy newid y cydbwysedd cyffredinol yn y ffordd y mae'n dosbarthu cymorth ariannol, p'un ai yn ôl sector neu yn ôl maint busnes.

**Ymwybyddiaeth o Busnes Cymru a'r Banc Datblygu**: Rydym yn croesawu'r dystiolaeth a glywsom am ymdrechion a wnaed i gryfhau cysylltiadau rhwng Busnes Cymru a'r Banc Datblygu. Clywsom hefyd am foddhad gwell gyda gwasanaeth Busnes Cymru ac y gellir ystyried bod y Banc Datblygu yn fwy effeithiol na Cyllid Cymru, gan gynnwys tystiolaeth o fwy o ymgysylltiad trawslywodraethol. Serch hynny, roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod lle i godi ymwybyddiaeth ymhellach o'r sefydliadau a'u swyddogaethau ar draws y gymuned fusnes. Byddem hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i adolygu'n barhaus fanteision unrhyw integreiddiad arall o'r swyddogaethau hyn.

**Bwrdd Cynghori Gweinidogol**: Gwnaethoch esbonio bod rhai manteision posibl o ran parhau ag aelodaeth dros dro yn dilyn yr anhawster roeddech wedi'i wynebu wrth recriwtio i'r Bwrdd. Serch hynny, byddwn yn edrych am ddiweddariad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ers hynny i wella amrywiaeth y Bwrdd. Rydym o'r farn bod amrywiaeth aelodaeth yn y Bwrdd Cynghori'n bwysig wrth gynghori ar sut y gellir targedu cymorth i fusnesau (boed yn gymorth ariannol neu fel arall) yn well i gefnogi

grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol nag a welwyd hyd yn hyn yn ôl pob tebyg, er gwaethaf pethau fel y Cynllun Entrepreneuriaeth Menywod.

**Cymorh ariannol i Dawnus:** Rydym yn cydnabod y sensitifrwydd masnachol posibl wrth ystyried a allai/ddylai Llywodraeth Cymru fod wedi rhannu gwybodaeth am y cymorth ariannol a ddarperir i Dawnus ag awdurdodau contractio eraill. Rydym hefyd wedi nodi'r pwyslais rydych wedi'i roi ar drefniadau diwydrwydd dyladwy'r sefydliadau hynny.

Serch hynny, roedd gennym ddiddordeb hefyd mewn cyfathrebu yn Llywodraeth Cymru ei hun yng nghyd-destun prosiectau rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu ar y cyd. Mae eich ymatebion hyd yn hyn wedi rhoi'r argraff i ni na fu dim cyfathrebu trawslywodraethol â chydweithwyr yn eich adran addysg ynghylch y pecyn cymorth ariannol i Dawnus. Mae hyn yn ein synnu ac rydym yn rhagdybio y byddai eich diwydrwydd dyladwy ynghylch y pecyn cymorth ariannol a'ch gwaith i fonitro cynllun adfer Dawnus wedi ystyried cyfraniad contractau presennol a darpar gontractau y sector cyhoeddus at ei sefyllfa ariannol.

Cyn ein sesiynau tystiolaeth ar gymorth ariannol i fusnesau, roeddem eisoes wedi trafod materion â chi yn ymwneud â rhannu gwybodaeth busnes fel rhan o waith ar gaffael cyhoeddus. Unwaith eto, gwnaethoch bwysleisio, bryd hynny, gyfrifoldeb sefydliadau unigol i gynnal diwydrwydd dyladwy perthnasol wrth ddyfarnu contractau a rheoli contractau'n barhaus a bod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio gwybodaeth busnes. Fodd bynnag, roedd eich ymatebion yn rhoi'r argraff i ni fod y gwaith a wnaed i gryfhau trefniadau gwybodaeth busnes yn ategu gweithgarwch caffael ehangach yn y sector cyhoeddus ac i ategu cyfathrebu ar draws y llywodraeth. I'ch atgoffa, rydych wedi nodi'r canlynol o'r blaen:

> *"Mae gwaith ar ddiwydrwydd dyladwy wedi cynnwys nodi a sefydlu portffolios sy'n cynnwys cyflenwyr allweddol, sydd wedyn yn cael eu monitro'n rheolaidd. Drwy'r portffolios hyn, mae'r Tîm Gwybodaeth Busnes yn rhannu'r newidiadau i ganlyniadau ariannol cyflenwyr allweddol yr adroddir amdanynt â'r maes busnes perthnasol ac uwch-reolwyr, i'w dadansoddi ymhellach ac er mwyn cymryd camau yn ôl yr angen. Mae'r broses hon yn cynnwys cyflenwyr ar draws gweithgareddau caffael y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a Sector Cyhoeddus ehangach Cymru.*
>
> *Mae'r Tîm Gwybodaeth Busnes wedi ffurfio cysylltiadau â chydweithwyr Gwybodaeth Fasnachol yng Ngwasanaeth Masnachol y Goron a Swyddfa Cabinet y DU. Mae swyddogion Gwybodaeth Busnes yn derbyn diweddariadau*

*wythnosol ar Gyflenwyr Strategol Swyddfa'r Cabinet. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadolygu, a lle bo hynny'n briodol, yn cael ei huwchgyfeirio i uwch-swyddogion i'w hystyried a/neu er mwyn cymryd camau.*

*I gryfhau perthnasau ymhellach, mae cyfarfod misol yn cael ei sefydlu rhwng swyddogion gwybodaeth busnes a chydweithwyr caffael yn Swyddfa Cabinet y DU. Defnyddir y cyfarfod hwn i drafod a rhannu gwybodaeth gan gyflenwyr ynglŷn â diwydrwydd dyladwy yn rheolaidd, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 29 Ebrill."*

Os, fel yr awgrymwyd uchod, yw gwybodaeth am ddiwydrwydd dyladwy yn cael ei rhannu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, mae hyn yn codi'r cwestiwn pam na ellir arddel egwyddor debyg ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, ac efallai hyd yn oed yn fwy yng nghyd-destun pwyslais y Prif Weinidog ar greu diwylliant 'un gwasanaeth cyhoeddus'. Byddem yn awyddus, felly, mewn unrhyw waith craffu arall i gael cadarnhad beth yw cwmpas y trefniadau rhannu gwybodaeth busnes a nodwyd gennych o'r blaen. O leiaf, mae'r pryderon a godwyd yn lleol yn achos prosiectau sy'n gysylltiedig â Dawnus ym Mhowys yn awgrymu y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru roi cadarnhad clir i awdurdodau cyhoeddus eraill ynghylch ei safbwynt ar y mater hwn (os bydd materion tebyg yn codi yn dyfodol).

Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y diffyg tryloywder cyffredinol o ran pecynnau cymorth ariannol a grantiau Llywodraeth Cymru. Mae'r mater hwn yn parhau i fod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn ein gwaith ac rydym wedi codi pryderon o'r blaen yn ein hadroddiadau ar Pinewood ac wrth graffu ar gyfrifon 2017-18.

Yn ystod ein gwaith ar Gyllid Busnes, rydym wedi edrych eto ar ein pryderon hirsefydlog ynghylch cadw gwybodaeth ariannol yn ôl ar sail sensitifrwydd masnachol. Rydym yn teimlo bod hyn yn cael ei ddefnyddio'n rhy rwydd gan Lywodraeth Cymru fel y rheswm dros beidio â datgelu ym mhob achos - o ystyried bod gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar bob trafodiad dros £25,000.

Tynnodd ein hadroddiad ynghylch Craffu ar Gyfrifon 2017-18 sylw bod angen trafodaeth ehangach ynghylch pa wybodaeth y gellir ei chyhoeddi i wireddu'r awydd teg am dryloywder ynghylch sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru wneud mwy o waith i adolygu ei dull o gyhoeddi gwybodaeth ariannol er mwyn sicrhau ei bod mor dryloyw â phosibl.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

cc: Russell George AC, Cadeirydd – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau